

PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mercher, 23 Awst 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

G. Davies a/ac P. Hughes-Griffiths

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr

K. Morris, Cyfreithiwr Cynorthwyol

M. Jacob, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd

E. Anthony, Uwch Swyddog derbyn i ysgolion

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

Rhif- Gyfarfod - 10.00 - 10.10 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd G. John and A. Lenny

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. COFNODION

3.1. 12 GORFFENNAF 2023 - 14:30YP

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 (14:30pm) gan eu bod yn gofnod cywir.)

3.2. 12 GORFFENNAF 2023 - 14:40YP

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 (14:40pm) gan eu bod yn gofnod cywir.)

3.3. 12 GORFFENNAF 2023 - 14:50YP

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 (14:50pm) gan eu bod yn gofnod cywir.)

3.4. 12 GORFFENNAF 2023 - 15:00YP

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 (15:00pm) gan eu bod yn gofnod cywir.)

3.5. 12 GORFFENNAF 2023 - 15:10YP

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 (15:10pm) gan eu bod yn gofnod cywir.)

3.6. 12 GORFFENNAF 2023 - 15:20YP

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 (15:20pm) gan eu bod yn gofnod cywir.)

3.7. 12 GORFFENNAF 2023 - 15:30YP

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 (15:30pm) gan eu bod yn gofnod cywir.)

3.8. 12 GORFFENNAF 2023 - 15:40YP

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 (15:40pm) gan eu bod yn gofnod cywir.)

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD S.W. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn

cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant ysgol am ddim i S.W. i ysgol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol o gyfeiriad y cartref, sef 3 milltir, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl gan S.W. am gludiant ysgol oherwydd bod yr ysgol o fewn y pellter cerdded statudol.

CADEIRYDD

DYDDIAD